# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Mehefin 2019

Amser: 09.06 - 12.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5521

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Hefin David AC<br>Suzy Davies AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC |
| Tystion: | Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru<br>Ruth Conway, Llywodraeth Cymru<br>Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Joanna Jordan, Llywodraeth Cymru<br>Matt Downton, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Rogers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau.

1.2 Datganodd y Cadeirydd ei bod yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol.

## 2 Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Gwaith dilynol ar yr adroddiad 'Cadernid Meddwl' – Sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog Addysg.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Addysg i ddarparu nodyn ar nifer yr ysgolion, gan gynnwys nifer yr aelodau staff, sydd wedi cael hyfforddiant ACE.

## 3 Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Gwaith dilynol ar yr adroddiad 'Cadernid Meddwl' – Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu'r canlynol:

- Crynodeb o Adroddiad Uned Gyflawni'r GIG o'i Adolygiad Capasiti, gan gynnwys adroddiadau pob Bwrdd Iechyd unigol a'r adroddiad y seiliwyd y cynlluniau gwella interim arnynt.
- Data rheoli ar wasanaethau niwroddatblygiadol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ehangach, gan gynnwys rôl asiantaethau eraill, ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn sy'n cael eu rhoi mewn ysbytai yn Lloegr.
- Nodyn ar y cynnydd a wneir ar iechyd emosiynol ac iechyd meddyliol Plant sy'n Derbyn Gofal (Argymhelliad 23 yn 'Cadernid Meddwl').

## 4 Papur i'w nodi

4.1 Nodwyd y papur.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddyliol Plant a Phobl Ifanc – Gwaith dilynol ar yr adroddiad 'Cadernid Meddwl' – Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn.

## 7 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) – Trafod y prif faterion

7.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion, a chaiff adroddiad drafft ei drafod ar 10 Gorffennaf.